Adroddiad y Pwyllgor Archwilio - “A yw’r trefniadau rheoli ariannol datganoledig yn GIG Cymru yn effeithiol?”

Adroddiad Pwyllgor AC(3) 01-09

4 Chwefror 2009

Argymhellion

(i) Mae angen datblygu trefniadau rheoli ariannol datganoledig yn sylweddol i sicrhau bod perfformiad y GIG yng Nghymru yn gwella ac y gellir cynnal y broses o foderneiddio gwasanaethau’n effeithiol.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

a) **sicrhau bod cymorth ar gael i Gyfarwyddwr Anweithredol presennol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yn y dyfodol er mwyn iddynt fedru meithrin a chynnal eu cymwyseddau ariannol;**

Cytunwyd. Ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru, mae nifer o raglenni datblygu wedi’u cynnal ar gyfer Cyfarwyddwyr anweithredol presennol. Roedd y rhain yn sicrhau bod hyfforddiant rheoli ariannol strwythuredig ac anffurfiol ar gael. Y bwriad yw darparu cyfres arall o raglenni datblygu pan gaiff Cyfarwyddwyr anweithredol newydd eu penodi i’r Byrddau Iechyd newydd.
Bydd Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru yn sicrhau y bydd rhan hanfodol o’r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cymwyseddau ariannol y cyfarwyddwyr anweithredol newydd.

b) **ei gwneud yn ofynnol i Brif Weithredwyr cyrff lleol y GIG ddangos bod rheolwyr sydd â chyfrifoldebau cyllidebol yn meddu ar y cymwyseddau ariannol i ymgymryd â’u rôl yn effeithiol gan sicrhau gwerth am arian;**

Cytunwyd. Cynhwysir y ddarpariaeth hyfforddiant ariannol yn rhaglen waith Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd ar gyfer 2009/10. Disgwylir y bydd Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Gweithredol eraill yn manteisio ar yr hyfforddiant a ddarperir. Fodd bynnag, mae’n rhaid i Gyfarwyddwyr Cyllid ddilyn cwrs datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd hyfforddiant cyllid ar gael ar-lein i bob rheolwr trwy raglen hyfforddi ariannol ar-lein yr Asiantaeth pan fydd y Byrddau Iechyd newydd wedi’u sefydlu. Fel mater o drefn, bydd yr Asiantaeth yn anfon manylion yr hyfforddiant y mae rheolwyr sydd â chyfrifoldebau cyllidebol wedi’i dderbyn at eu cyflogwyr.

c) **sicrhau bod holl reolwyr ariannol y GIG yn dilyn rhaglen hyfforddi’r fframwaith cymhwysedd ariannol newydd i ddangos y bydd y safonau gofynnol yn gyson drwy Gymru gyfan;**

Cytunwyd. Mae pob aelod o staff cyllid yn dilyn fframwaith ymddygiad cymhwysedd ariannol y GIG, sydd wedi'i ddatblygu'n ddiweddar, sef 'More than a Number'. Mae hwn yn nodi'r cymwyseddau, y sgiliau a'r ymddygiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i bob gweithiwr cyllid proffesiynol eu dangos.

(ii) Dylid adeiladu ar y gwelliannau a wnaed yn ddiweddar o ran rhagolygon ariannol yn ystod y flwyddyn a'u defnyddio fel sylfaen i gyflwyno cynlluniau ariannol tymor canolig sy'n gyffredinol effeithiol.

Cytunwyd. Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG lunio cynlluniau 3 blynedd sy'n cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'r Fframwaith Gweithredu Blynyddol. Mae'r fframwaith cynllunio'n cael ei wella ar hyn o bryd fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu'r GIG. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud ac yn gwneud y fframwaith cynllunio'n fwy cynhwysfawr o ran gofynion y Byrddau Iechyd newydd mewn perthynas â'r gweithlu a chyfalaf.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a) **wrth graffu ar y cynlluniau ariannol tymor canolig a gynhyrchir gan gyrff iechyd lleol, yn cadarnhau bod yr holl gynigion i foderneiddio gwasanaethau'n cynnwys amcangyfrifon realistig o'r gost o gynnal y gwasanaethau presennol yn ogystal â chost y datblygiadau newydd.**

Cytunwyd. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG trwy'r system gynllunio i sicrhau bod yna gysylltiadau effeithiol rhwng yr argymhellion a'r blaengynlluniau.

Y Fframwaith Gweithredu Blynyddol yw'r broses gynllunio allweddol ar gyfer sefydliadau'r GIG, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonynt lunio cynlluniau cyflenwi Fframwaith Gweithredu Blynyddol sy'n fanwl, sydd wedi'u costio ac sy'n bodloni'r gofynion cenedlaethol. Mae'r broses hon yn darparu dull herio effeithiol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ei bod yn galluogi cynlluniau'r GIG i gael eu harchwilio'n fanwl, gan sicrhau bod yna gysylltiadau effeithiol rhwng y blaengynlluniau a'r cynlluniau ariannol. Mae proses y Fframwaith Gweithredu Blynyddol hefyd yn sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth a chyllid yn cael eu cyfuno â chyflawni'r targedau effeithlonrwydd a chynhyrchiant cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y gofal gorau a gwerth am arian yn cael eu cyflawni.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu Bwrdd Prosiect Fframwaith Gweithredu Blynyddol sy'n craffu ar holl gynlluniau cyflenwi Fframwaith Gweithredu Blynyddol y GIG er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r gwelliannau sydd wedi'u cynllunio o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael.

(iii) Er bod angen sicrhau nad yw'r gwaith arfaethedig o ad-drefnu'r GIG yn cynyddu ansefydlogrwydd ariannol, dylid manteisio ar y cyfle i sicrhau bod

gan reolwyr ariannol ddigon o allu a chymwyseddau i gynnal y broses o foderneiddio gwasanaethau.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

a) **llenwi swyddi uwch yng nghyrff newydd y GIG drwy benodi unigolion y gellir dibynnu arnynt i hyrwyddo a gwella arweiniad ym maes rheoli ariannol;**

Cytunwyd. Rydym yn mynd i'r afael â hyn trwy gynlluniau gweithredu'r AD sy'n cael eu datblygu ar gyfer llenwi swyddi uwch yng nghyrff y GIG. Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd angen i'r ymgeiswyr am y swyddi uwch ddangos dealltwriaeth a gallu ym maes rheoli ariannol.

b) **egluro'r trefniadau priodol i ddatblygu gallu ym maes rheoli ariannol yng nghynlluniau'r prosiectau a'r cynlluniau trosiannol ar gyfer creu cyrff newydd y GIG;**

Cytunwyd. Mae cynllun prosiect manwl eisoes wedi'i lunio, ac mae'n cael ei fonitro'n agos. Bydd y staff cyllid yn dilyn y fframwaith ymddygiad cymhwysedd yng nghyrff newydd y GIG, a chaiff y gofynion hyfforddi eu bodloni gan ffrwd waith Datblygu'r Staff Cyllid.

c) **mynd ati'n systematig i adolygu pa mor effeithiol yw nifer o'r mentrau y mae wedi'u cyflwyno'n ddiweddar i wella trefniadau rheoli ariannol.**

Cytunwyd. Fel rhan o'r gwaith ad-drefnu, bydd y mentrau sydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar yn cael eu hadolygu i asesu pa mor briodol ydynt a sicrhau eu bod yn gwella disgyblaeth rheoli ariannol yn GIG Cymru.

(iv) Er i'r GIG yng Nghymru lwyddo i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2007-08, mewn rhai rhannau o Gymru, mae hyn i'w briodoli i'r ffaith eu bod wedi manteisio'n sylweddol ar froceriaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r anawsterau'n parhau mewn rhai cymunedau iechyd, ym Mhowys ac Abertawe yn bennaf. Pan grëwyd Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda, roedd yn wynebu dyledion mawr oherwydd diffygion ariannol hanesyddol.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

a) **wrth gwblhau cynlluniau ariannol terfynol ar gyfer y cyrff lleol hynny yn y GIG sy'n cael anawsterau, yn cydnabod y gall gymryd dros flwyddyn i adfer y sefyllfa ariannol er mwyn lleihau'r effaith ar gleifion.**

Cytunwyd. Mae'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y cynlluniau Adfer Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau ddangos sut y byddant yn sicrhau sefyllfa gytbwys yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn y rhagwelir y diffyg ynddi a sut y bydd sefydliad yn ad-dalu unrhyw ddiffyg o fewn cyfnod o 3 blynedd ar y mwyaf. Bydd y cynllun yn cwmpasu'r

cyfnod y bydd y broblem ariannol yn codi hyd nes y bydd y sefydliad yn dychwelyd i'r balans rheolaidd ac y bydd pob dyled wedi'i had-dalu.

Mae arweiniad y Cynlluniau Adfer Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad ddiffinio pa un o'r cynlluniau cynilo, os oes rhai, y mae'n credu bod angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch ac y gallai effeithio ar ofal cleifion.